

Ysgol Brynrefail

Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD



Pennaeth/Headteacher:

Mr Eifion Jones, BSc.

☎ (01286) 672381

📠 (01286) 672066

✉ swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

🌐 www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

Annwyl Riant,

Mae'n debyg y byddwch yn ymwybodol fod yr ysgol wedi cael cryn sylw yn y wasg yn ddiweddar ynglŷn ag arweinyddiaeth yr ysgol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym fel ysgol wedi cael ein monitro yn rheolaidd gan Estyn, yn ogystal â chynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg ac rydym wedi derbyn adroddiadau cadarnhaol ganddynt am y cynnydd da sydd eisoes wedi ei wneud. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r pwyntiau isod yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau yn y wasg, ond rydym o'r farn ei bod yn briodol i chi fel rhieni fod yn ymwybodol ohonynt:-

Dyweddodd Estyn mewn ymweliad monitro yn Ionawr 2014

- Yng nghyfnod Allweddol 4 mae canlyniadau'r ysgol yn y dangosyddion pwysig wedi gwella o'i gymharu â 2012. Dengys data mewnol yr ysgol sydd yn seiliedig ar ffug arholiadau ac aseiniadau eraill bod y tueddiad o welliant yn y parhau yn 2014.
- Cafwyd cynnydd da yn yr elfennau sydd yn ymwneud â chynllunio a darparu adnoddau ar gyfer datblygu'r medrau.
- Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o strategaethau priodol i wella asesiad o waith disgyblion a'r adborth i rieni. Mae'r ysgol wedi gwella safon ei hadroddiadau i rieni fel eu bod yn cynnig arweiniad priodol i ddisgyblion a rhieni.

Yn ôl adroddiad gan Swyddog Monitro'r Awdurdod Addysg yn Nhachwedd 2013;-

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn erbyn argymhellion y Cynllun Gweithredu Ol-Arolwg.
- Mae'r awdurdod yn ffyddiog bod y sylfeini grymus osodwyd yn eu lle ers yr arolygiad yn mynd i arwain at welliannau pellach.

Hoffwn eich sicrhau ein bod fel corff o staff yn Ysgol Brynrefail yn parhau i ganolbwyntio ein holl sylw a'n hegri ar ddarparu'r addysg orau posibl i'n disgyblion. Rydym yn hyderus y bydd y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd yn unol â'u gallu a'u potensial, ac mae'r rhagolygon yn bositif iawn ar gyfer yr arholiadau allanol yn yr haf.

Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

Mr Arwyn Williams

Pennaeth Mewn Gofal

Ysgol Brynrefail